PWYLLGOR CRAFFU LLE

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 22 Medi 2026.

Mae papurau'r cyfarfod ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

I weld y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol ar gyfer unrhyw eitem agenda Rhan I, cliciwch ar yr hypergyswllt sydd wedi'i gynnwys yn ei deitl isod.

Yn bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-gadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, C.P. Franks, J.M. Norman, E. Penn, I.A.N. Perry, C. Stallard ac S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: G. Doyle a D. Paskin (Gweithgor y Tenantiaid / Cynrychiolwyr y Panel); Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), S.M. Hanks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

245 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

246 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

247 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026 fel cofnod cywir.

248 CYFLWYNIAD: DIWEDDARIAD BLYNYDDOL AR DWRISTIAETH A DIGWYDDIADAU –

Cyflwynodd Prif Swyddog Twristiaeth a Marchnata (Adfywio) y Cyngor – gyda chymorth y Rheolwr Gweithredol (Adfywio) – gyflwyniad i'r Pwyllgor ar y Diweddariad

Blynyddol ar Dwristiaeth a Digwyddiadau ar gyfer Bro Morgannwg, er mwyn iddynt ei ystyried a'i graffu.

Roedd diben y diweddariad yn cynnwys rhoi trosolwg o ganfyddiadau Arolwg Ymwelwyr Bro Morgannwg 2026, darparu diweddariad ar yr arolwg o stoc llety a manylion am y cynllun cofrestru statudol newydd sydd ar fin cael ei gyflwyno yng Nghymru, yn ogystal â rhannu manylion ynghylch ymgyrch 'Addo', canlyniadau'r Ymgyrch Marchnata Digidol (Haf 2026) a manylion yr Ymgyrch Teithiau Bysiau Hyfforddi yn Ynys y Barri.

Yn dilyn y cyflwyniad, cododd aelodau amrywiol o'r Pwyllgor ystod eang o gwestiynau a sylwadau; cafodd y rhain eu hateb gan y Prif Swyddog Twristiaeth a Marchnata (Adfywio) a'r Rheolwr Gweithredol (Adfywio), gyda chyfraniadau hefyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar yr eitem a'r pwyntiau a godwyd yn rhan ohoni, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyflwyniad Diweddariad Blynyddol ar Dwristiaeth a Digwyddiadau, yn dilyn ei ystyried gan y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod.

249 ADRODDIAD DIWEDDARU: STRATEGAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF (2022-2032) (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Strategaeth Rheoli Ailgylchu a Gwastraff (2022-2032). Nododd hefyd y camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol, targedau ailgylchu ac amcanion amgylcheddol ehangach yn ogystal ag ymgorffori camau lliniaru allweddol arfaethedig a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad gwasanaethau ailgylchu a gwastraff ynghyd â chynnydd ar brosiectau a mentrau strategol a gynlluniwyd i wella effeithlonrwydd gweithredol, gwydnwch a pherfformiad gwasanaethau.

Darparodd yr adroddiad ddiweddariad ar ddatblygiadau deddfwriaethol a pholisi sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y Cynllun Dychwelyd Adneuon (CDA), Olrhain Gwastraff yn Ddigidol, Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd (CEC), targedau ailgylchu yn y dyfodol a'r cynnig i gynnwys cyfleusterau Ynni o Wastraff yn y Cynllun Masnachu Allyriadau (CMA); disgwylid i'r rhain oll ddylanwadu ar ddarparu gwasanaethau a pherfformiad ailgylchu yn y dyfodol.

Yn ogystal, tynnodd yr adroddiad sylw at nifer o gyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol yn ogystal â thynnu sylw at risgiau a heriau cyllidebol sy'n wynebu'r gwasanaeth ac yn amlinellu ffactorau a oedd yn debygol o effeithio ar berfformiad yn y dyfodol, darpariaeth weithredol a chynaliadwyedd ariannol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried ac yna gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen â datblygu ac adeiladu'r Cyfleuster Parcio Fflyd arfaethedig yn Ystad Masnachu'r Iwerydd, yn amodol ar dderbyn caniatâd Cynllunio, ynghyd ag unrhyw argymhellion perthnasol. Roedd y datblygiad yn elfen allweddol o raglen seilwaith rheoli gwastraff hirdymor y Cyngor ac roedd disgwyl iddo gyflawni effeithlonrwydd gweithredol, arbedion ariannol a buddion lleihau carbon wrth wella gwydnwch a chynaliadwyedd y gwasanaeth rheng flaen.

Rhoddwyd cyflwyniad manwl i'r Pwyllgor er mwyn cefnogi'r adroddiad a'i gynigion / canfyddiadau, ac i hysbysu'r Pwyllgor ymhellach am y meysydd allweddol o gynnydd, perfformiad, cynigion, datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol, cynigion seilwaith, deddfwriaeth, yn ogystal â'r camau a'r heriau nesaf o amgylch y Strategaeth a chasglu a phrosesu gwastraff / ailgylchu ym Mro Morganwg, a fyddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor yn ei ystyriaeth a'i graffu ar y pwnc hwn.

Yn ystod y cyflwyniad, cododd amrywiol Aelodau'r Pwyllgor ystod eang o ymholiadau a sylwadau a gafodd eu hateb gan Bennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth. Gwnaed cyfraniadau hefyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau, yr Aelod Portffolio Cabinet perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth ar yr eitem a'r pwyntiau a godwyd yn rhan ohoni, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (2022-2032), gan gynnwys perfformiad y gwasanaeth, datblygiadau deddfwriaethol a phrosiectau seilwaith strategol a nodir yn yr adroddiad.

(2) Y dylid cymeradwyo Cynllun Gweithredu diweddarach y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (2022-2032), sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.

(3) Y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Cabinet i'w ystyried, gan gynnwys Argymhellion 2.4 – 2.8 yr adroddiad, sy'n benodol i'r Cabinet a'i ystyriaethau, a bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (2022-2032), gan gynnwys perfformiad y gwasanaeth, datblygiadau deddfwriaethol a phrosiectau seilwaith strategol a nodir yn yr adroddiad hwn.

(4) Yn unol ag Argymhelliad 2.8 yr adroddiad, y dylid newid y geiriad i'r canlynol, er mwyn i'r Cabinet ei ystyried:

> “Bod y Cabinet yn ystyried adeiladu'r cyfleuster parcio fflyd arfaethedig yn Ystad Fasnachu Atlantic ac yn awdurdodi cychwyn y gwaith ar gyfer cam cyntaf y cynllun, yn amodol ar gael y caniatâd cynllunio, y cymeradwyaethau statudol a'r trefniadau ariannu angenrheidiol. Bod y Cabinet hefyd yn cydnabod, er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteision o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd a ddaw yn sgil Cam 1, y byddai angen cyllid cyfalaf o tua £1.2m i fwrw ymlaen â Cham 2, a bod y Cabinet yn dylid ystyried hyn wrth ystyried y cynnig sy'n ymwneud â Cham 1.”

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Strategaeth yn parhau i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma, gofynion deddfwriaethol sy'n dod i'r amlwg, blaenoriaethau sy'n newid a datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol.

(3) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed ers cymeradwyo'r Strategaeth a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r gwasanaeth. Ystyried a chymeradwyo'r adroddiad yn ogystal ag Argymhellion 2.4 – 2.8.

(4) Galluogi'r Cyngor i fwrw ymlaen â chyflenwi'r cyfleuster parcio fflyd yn y modd mwyaf cost-effeithiol ac effeithlon, gan wella gwydnwch gweithredol, lleihau symudiadau cerbydau ac allyriadau carbon, a chefnogi gofynion seilwaith hirdymor y Gwasanaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff.